



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

LEGISLATION COMMITTEE REPORT

Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2001

Y Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno hawl gyfreithiol i geisio adolygiad mewn tri cham o benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â chymorthdaliadau a chwotâu amaethyddol penodol. Daw'r darpariaethau hyn i rym ar 1 Awst 2001 ac maent yn gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn IACS 2001 ymlaen.

Ceir nodyn manwl am y gweithdrefnau apelio yn y Nodyn Esboniadol.

Deallir bod Lloegr a Gogledd Iwerddon yn bwriadu gwneud darpariaethau tebyg ond bod yr Alban wedi penderfynu cyfeirio apelau o'r fath at y Llys Tiroedd.

Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

Sylw Cyffredinol

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar y Rheoliadau hyn mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau sy'n addas yn eu barn hwy i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau neu adeg argraffu'r Rheoliadau.

Y Pennawd

Mae anghysondeb yn y teitl. Yn y pennawd i'r Nodyn Esboniadol a Rheoliad 1(1) yn y

testun Saesneg mae 'Agricultural' yn cael ei ddefnyddio er bod 'Agriculture' yn cael ei ddefnyddio yn y pennawd i'r Rheoliadau gwirioneddol.

Y Nodyn Esboniadol – yr ail baragraff

Mae'n ymddangos bod "the" yn yr ail linell o'r testun Saesneg yn ddiangen.

Mae atalnod diangen ar y diwedd yn y testun Saesneg.

Y Nodyn Esboniadol - paragraff 4

Dylai 'ynhwyrach' fod yn 'yn hwyrach' yn y testun Cymraeg.

Y Nodyn Esboniadol – y pumed paragraff

Dylai 'bennaeth y Swyddfa' fod yn 'bennaeth Swyddfa' yn y testun Cymraeg.

Rheoliad 4(a)

Dylai 'gynwys' fod yn 'gynnwys' yn y testun Cymraeg.

Rheoliad 7(3)

Mae angen atalnod llawn ar ôl 'Unit' yn y testun Saesneg.

Rheoliad 8 (2)(c)

Dylai 'gan y bennaeth' fod yn 'gan bennaeth' yn y testun Cymraeg.

Troednodyn (6)

Mae'n ymddangos y dylai "p." yn y testun Saesneg fod yn "9." fel yn y testun Cymraeg.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

26 Mehefin 2001